



# Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol ar gyfer chwarae **Gwanwyn 2007**



## Rhifyn Mannau Chwarae Teyrnged i Peter Clarke 1m ar gyfer chwarae cynhwysol



[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



# Golygyddol

## Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
£1m ar gyfer chwarae i blant anabl	3
Aelodaeth	3
Y Gemau Olympaidd Ddim yn Fygythiad	3
Ein Strydoedd Ni Hefyd!	3
Cyhoeddiad Newydd	3
Newidiadau yn ASGC	4
Diogelu Grwpiau Bregus	4
Cymdeithas Sgrap	5
Seminar Mawr Chwarae Plant	5
Cais Brys! Cymorth gyda gwaith ymchwil	5
Gwasanaeth Newyddion ein Gwefan	5
Peter Clarke	6
Ymgynghoriad Plant ar Chwarae	6
Mannau Chwarae	7
Archwilio Meysydd Chwarae	8
Gawn ni chwarae go iawn os gwelwch yn dda?	9
Amgylchedd Chwarae Cyfoethog	9
Mam yn trechu'r Datblygwyr	10
Croeso i faes chwarae yn Sir y Fflint	10
Meysydd chwarae natur Freiburg	11
Berlin	12
Enwi Ein Prosiect Hyfforddiant Gwaith Chwarae!	14
Chwarae Mas yn y Maes yng Nghymru	14
Cyfweliad gyda Hyfforddwr Gwaith Chwarae	15
Digwyddiadau	16
Ariannu	16

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

**Cysylltwch â'r Golygydd yn:**  
**Chwarae Cymru, Tŷ Baltig,**  
**Sgwâr Mount Stuart,**  
**Caerdydd CF10 5FH**

Rhif ffôn: 029 2048 6050  
 E-bost: [info@playwales.org.uk](mailto:info@playwales.org.uk)

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan  
 Carrick Business Services Cyf.  
 Ffôn: 029 2074 1150  
 E-bost: [sales@carrickdesignprint.co.uk](mailto:sales@carrickdesignprint.co.uk)

Rydym bellach yn gallu cyhoeddi pedwar rhifyn y flwyddyn o Chwarae dros Gymru, ac rydym wedi neilltuo'r rhifyn hwn i fannau chwarae plant yn y gymuned. Ond mae'n bwnc eang ac rydym yn sylweddoli mai ond megis crafu'r wyneb yr ydym, a byddwn yn dod yn ôl ato mewn rhifynnau yn y dyfodol.

**M**ae manau awyr agored yn holl bwysig i blant, boed yn faes chwarae lleol, yn ardd o faint gweddol, stryd dawel, tir yr ysgol, ardal chwarae wedi ei neilltuo neu ofod naturiol anffurfiol. Cyn gynted â'u bod yn gallu cerdded mae plant am fod allan, ac unwaith eu bod yn gallu siarad byddant yn dweud wrthyn ni mai'r lle gorau i chwarae yw'r tu allan.

Mae tir ble y gall plant chwarae yn eu cymunedau eu hunain yn diflannu'n gyflym. I lawer ohonom, pan fyddwn yn dychwelyd i fannau lle y byddem yn chwarae pan oeddem yn ifanc – y manau oedd yn annwyl i ni ac yr oeddem yn teimlo oedd yn berchen i ni – fe welwn, er mawr siom, bod adeiladau arnynt. Mae'n deimlad gwag; ni ellir fyth adennill y gofod a'r cyfleoedd chwarae oedd ar gael yno. Caiiff ansawdd bywyd plant ei andwyo'n barhaol gan y golled yma, ac mae'r canlyniadau'n gweiddi arnom o benawdau papurau newydd am iselder mewn plentynod, "ymddygiad gwrthgymdeithasol", diffyg ffirwydd a salwch.

Prin iawn yw'r gofod awyr agored y gall plant ei hawlio. Efallai nad yw ardal chwarae leol yn cynnig gwerth chwarae da i blant, ond mae'n arwydd sy'n dweud "gofod plant yw hwn". Ond mae plant angen mwy na siglenni a sleidiau ac arwynebau diogel di-haint – mae'n rhaid inni warchod y manau glas, y prysgwydd, y coedwigoedd a'r prysgdair sydd wedi cynnig amgylchedd chwarae mor gyfoethog erioed.

Gwyddom y bydd y sector chwarae gyfan yng Nghymru yn eithriadol o falch i weld clawr blaen rhifyn Dydd Gŵyl Ddewi o'r cylchgrawn "Children Now" oedd yn cyhoeddi bod Cymru yn "rym byd-eang ym maes chwarae". Rydym fel cenedl yn dechrau derbyn cydnabyddiaeth gan wledydd eraill am fod yn flaengar – mae Cynulliad Cymru'n cymryd y blaen ar lunio polisi rhyngwladol. Ond nid dyma'r amser inni

eistedd yn ôl ag ymlacio.

Roedd yn eithaf arwyddocaol i lansiad y Polisi Chwarae a'r Cynllun Gweithredu dderbyn cefnogaeth yr holl bleidiau, ond wrth gwrs rydym yn gwbl ymwybodol sut y gall blaenoriaethau gwleidyddol newid, ac mae llai o sicrwydd ynghylch canlyniadau'r etholiad nesaf nag a fu gydag unrhyw bleidlais i'r Cynulliad o'r blaen.

Felly, pan gaiff y rheini ohonom sydd â diddordeb ym maes chwarae plant ein canfasio gan gynrychiolwyr gwahanol bleidiau, bydd angen inni ofyn cwestiynau allweddol sy'n sicrhau fod chwarae plant yn aros ar frig yr agenda:

1. Mae Cynulliad Cymru'n arwain y ffordd ar ystod o faterion plant gan gynnwys chwarae plant – sut fydd eich plaid chi'n parhau â'r momentwm?
2. Ar lefel etholaeth leol, pan fydd gwrthdaro rhwng buddiannau oedolion ac anghenion chwarae plant allwn ni gyfrif arnoch chi i fod yn llais i'r plant?
3. Beth ydych am ei wneud am y penderfyniadau cynllunio lleol sy'n bwyta tir ble y bydd plant yn chwarae ac yn ei droi'n barciau adwerthu ac yn ystadau tai?

Er inni ddod yn bell yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf, bydd angen inni fel sector chwarae barhau i wthio am newid, oherwydd mae cryn daith yn dal o'n blaenau.

**Mike Greenaway**  
**Cyfarwyddwr**

Gwefannau defnyddiol:

<http://www.npfa.co.uk/content/protect/index.html>

<http://www.cabe.org.uk/default.aspx?contentitemid=41>

<http://www.playlink.org.uk>



# £1m ar gyfer chwarae i blant anabl



Roedd y gyllideb derfynol a gytunwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr yn cynnwys darpariaeth o £1 miliwn yn ychwanegol yn 2007-8 ar gyfer cyfleusterau chwarae i blant anabl. Caiff y cyllid yma ei ddsbarthu fel ychwanegiad i ddyraniad Cymorth.

**G**ofynnwyd i bob partneriaeth Plant a Phobl Ifanc i gyflwyno amlinelliad o sut y maent yn bwriadu defnyddio'r cyllid erbyn 30 Ebrill 2007. Os y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon â'r cynlluniau hyn, cyhoeddir gwelliant i gynnig grant 2007-8 Cymorth ar y "cyfle cyntaf". Bydd ymestyn y cyllid yma i 2008-9 yn dibynnu ar drafodaethau cyllideb Llywodraeth newydd y Cynulliad yn hwyrach eleni.

Gofynnir i ymgeiswyr ystyried y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (NSF): "Nid dim ond diffygion plant anabl sy'n pennu ansawdd eu bywyd, ond yn ogystal agweddau negyddol ac

amgylchedd andwyol, er enghraifft, mynediad anghyfartal i addysg, cyfathrebu, cyflogaeth, gweithgareddau hamdden, tai a gofal iechyd."

"Caiff plant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal i wasanaethau chwarae a hamdden, yn cynnwys cynlluniau chwarae gwyliau ysgol, clybiau ar ôl ysgol a darpariaeth cyn-ysgol, gyda chefnogaeth briodol os oes angen."

**Ymwelwch ag adran newyddion [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk) i weld amlinelliad o'r dyraniad ariannol posibl.**

**Ymwelwch â'n gwefan i weld ein ffeithddalen ar gynhwysiad.**

## Aelodaeth – 'dyw hi ddim yn rhy hwyr!

**M**ae amser ar ôl i chi ymuno â Chwarae Cymru fel Aelod cyswllt (i rai sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru) neu aelod cyswllt rhyngwladol. Mae buddiannau'n cynnwys gostyngiad mewn costau cynhadledd a seminarau, a phrisiau is ar gyhoeddiadau, a Gwiriadau CRB rhatach neu rad ac am ddim ar gyfer darpariaeth rheoledig. Am restr lawn o'r holl fuddiannau, ymwelwch â'r dudalen Pam Ymuno? yn Ardal Aelodau ein gwefan [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

## Y Gemau Olympaidd Ddim yn Fygythiad

Mewn ymateb i'r newydd bod Cronfa'r Loteri FAWR yn neilltuo arian ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain, dywed Rob Roffe, ar ran MAWR: "Ni fydd y cyhoeddiad diweddar, y caiff arian ei ailgyfeirio i gefnogi isadeiledd Gemau Olympaidd 2012, yn effeithio ar y Rhaglen Chwarae Plant yng Nghymru".

## Ein Strydoedd Ni Hefyd! Diwrnodchwarae 2007

**Cynhelir ar Ddydd Mercher 1af Awst.**

**Ymwelwch â  
[www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk)  
am ragor o  
wybodaeth.**



## Cyhoeddiad Newydd

### Llyfr Newydd ar Feysydd Chwarae Antur

Yn ystod Cynhadledd 'Ysbryd Chwarae Antur' gwelir lansiad llyfr newydd Chwarae Cymru gan Fraser Brown sef 'The Venture – A Case Study of an Adventure Playground'. Mae'n archwilio llwyddiant hirhoedlog The Venture, Maes Chwarae Antur ar un o ystadau tai mwyaf difreintiedig Cymru, ac mae'n seiliedig ar sgrysiâu gyda Malcolm King (un o'r Sefydlywyr a'r Rheolwr presennol) a Ben Tawil (un o'r Gweithwyr Chwarae diweddar). Mae'r siwmai'n dechrau ym 1978 gydag ychydig o blant chwilfrydig, arweinydd chwarae a thân, ac mae'n parhau hyd heddiw.

Cost y llyfr fydd £7.50 a bydd ar gael o'r 11 Mai 2007. Gallwch alw ein Swyddfa yng Ngogledd Cymru (01745 851816) i archebu copi ymlaen llaw, neu gallwch eich brynu ar-lein o ganol mis Mai ymlaen ar [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



# Newidiadau yn ASGC

Cyfarwyddwr Newydd i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**P**enodwyd Rob Pickford yn gyfarwyddwr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), ddaw i fodolaeth ym mis Ebrill. Mae'r penodiad yn dilyn integreiddio Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) gan greu sefydliad newydd. Mr. Pickford oedd prif weithredwr ASGC.

'Ein nod yw cefnogi gwella'r sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru trwy godi safonau, gwella ansawdd gwasanaethau a hyrwyddo arfer gorau trwy reoleiddio, arolygu a gwaith datblygu,' dywedodd Mr. Pickford.

## Newidiadau i arolygiadau

Mae rhaglen eang AGGCC i newid y modd y bydd yn arolygu sefyllfaoedd cofrestredig bellach ar waith. Y llynedd cyflwynwyd newidiadau i'r dulliau arolygu ar gyfer nifer o sefyllfaoedd gofal gan gynnwys gwarchod plant a gofal plant sesiynol. O fis Ebrill 2007 byddwn yn cyflwyno newidiadau arolygu i sefyllfaoedd gofal y tu allan i'r ysgol.

Daeth rheoliadau newydd ar gyfer asesu gwasanaethau, adolygu ansawdd y gofal, systemau achwyn a chydymffurfio sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal dydd, i rym ym mis Ionawr 2007. Bydd AGGCC yn sicrhau y caiff cyfranddalwyr eu diweddarau'n rheolaidd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol agosaf.

## Cynlluniau chwarae Haf

Bydd gofyn i unrhyw un sy'n rhedeg cynllun chwarae haf ar gyfer plant Dan 8 oed i gofrestru cyn gynted â bo modd, hyd yn oed os nad yw'r holl fanylion wedi eu pennu. Ni all AGGCC warantu y caiff ceisiadau a gyflwynir ar ôl **30 Mai 2007** y sylw angenrheidiol i gwblhau'r broses gofrestru. Os y bydd y lleoliad yn newid, bydd dal angen i chi hysbysu'r ffin arolygu rhanbarthol gan y caiff y cynllun ei drin fel cais newydd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol agosaf.

**O 2 Ebrill, ymwelwch â [www.cssiw.org.uk](http://www.cssiw.org.uk) am ragor o wybodaeth ynghylch AGGCC.**

# Cyflwyno Mesur Diogelu Grwpiau Bregus

Cyflwynwyd Y Mesur Diogelu Grwpiau Bregus i Dŷ'r Arglwyddi ar 28 Chwefror. Mae'r Bill yn cynnwys y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyflwyno cynllun gwirio a gwahardd newydd i rai sy'n gweithio gyda phlant a / neu oedolion bregus. Y cynllun hwn yw ymateb y Llywodraeth i Ymchwiliad Bichard yn 2004.

**C**aiff y Cynllun Gwirio a Gwahardd newydd ei gyflwyno o Hydref 2008 ymlaen. Golyga cyflwyno'r mesur y bydd 9.5 miliwn o oedolion yn gymwys i gael eu gwirio o dan y cynllun newydd. Mae hyn yn un rhan o dair o'r boblogaeth oedolion sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr.

Bydd y **Mesur Diogelu Grwpiau Bregus** yn ymestyn gwirio ymhellach, i gynnwys:

- Pobl sydd â **mynediad i wybodaeth am blant**, e.e. gweithwyr canolfannau galw, gweinyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, cymedrolwyr ar-lein;
- Pobl sydd â **threfniadau preifat gyda theuluoedd**, e.e. athrawon cerdd a gwarchodwyr plant;
- Pobl allai **weithio gyda phlant** yn y dyfodol.

Bydd y Mesur hefyd yn ei gwneud hi'n **dramgwydd troseddol** i gyflogwyr gyflogi person sydd heb ei wirio i weithio â phlant; ac i berson sydd heb ei wirio dderbyn swydd o'r fath. Gallai'r cyflogwr a'r cyflogai dderbyn **dirwy o hyd at £5000**.

Mae cyflwyniad y Mesur wedi tynnu cryn dipyn o wrthwynebiad. Dywed Josie Appleton (Cydllynydd y Clwb Maniffesto ac awdur 'The Case Against Vetting') "Nid yw gweithdrefnau amddiffyn plant o'r fath yn gwneud fawr ddim i amddiffyn plant rhag y nifer fechan o unigolion fyddai am eu niweidio. Yn hytrach, maent yn niweidio perthynas plant-oedolion ac yn tansellio gallu oedolion i gyfrannu at les plant".

Gallwch lwytho copi o'r Mesur i lawr ar

<http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200506/ldbills/079/2006079.htm>

Mae cyfres o ffeithdalen i gael ar

<http://www.everychildmatters.gov.uk/resources-and-practice/IG00201/>

Am ragor o wybodaeth ynghylch Ymgyrch y Clwb Maniffesto: "The Case Against Vetting":

<http://www.manifestoclub.com/hubs/vetting>



# Cymdeithas Sgrap

Mae'r cysylltiadau anffurfiol presennol rhwng canolfannau adnoddau / storfeydd sgrap yng Nghymru wedi dechrau cael eu atgyfnerthu gan gyfarfodydd cenedlaethol rheolaidd.

**Yn ogystal â ffurfio rhwydwaith cefnogaeth, bydd y cyfarfodydd yn helpu i ddatblygu agwedd strategol, gydlunol tuag at ddarparu adnoddau ar gyfer chwarae. Mae cynrychiolwyr storfeydd sgrap sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â rhai sydd ar y gweill, wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma. Mae'r NATLL (Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden) yn cael ei gynrychioli ar y grŵp.**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Ffederasiwn

Adnoddau yn Rhaeadr ar Ddydd Iau 19 Ebrill. Mae Chwarae Cymru wedi cynnig cymorth gyda'r cydlynu, felly am ragor o wybodaeth am y rhwydwaith cysylltwch â'r swyddfa genedlaethol ar 029 2048 6050 neu e-bostiwch [mail@playwales.org.uk](mailto:mail@playwales.org.uk). Am fanylion cyswllt a rhagor o wybodaeth am eich storfa sgrap leol, gweler gwefan Chwarae Cymru ar [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

**Helen Elton, Cyfarwyddwraig,  
Chwarae Iawn, Abertawe**



## Seminar MAWR Chwarae Plant

Mynychodd dros saith deg o gynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol, awdurdodau lleol a chynghorau gwasanaethau gwirfoddol o bob cwr o Gymru'r Seminar MAWR Chwarae Plant cyntaf, a gynhaliwyd yn Llandrindod ar y 12 Chwefror.

**Roedd y gweithdai'n edrych ar 'Greu Memorandwm Dealltwriaeth' a R'Chynllunio eich Prosiect' a chafwyd cyflwyniad gan Rhondda Cynon Taf yn amlinellu eu profiadau o weithio partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol.**

Dyweddodd Lara Ramsay, Rheolwraig Rhaglen Chwarae Plant MAWR: "Cafodd Cronfa'r Loteri FAWR ei galonogi gan y modd y bu i gyfranddalwyr groesawu'r agwedd strategol gaiff ei argymhell gan y rhaglen a chawsom ein llenwi â brwdfrydedd gan barodrydd mudiadau i gydweithredu ar sail rhanbarthol".

Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer ariannu rownd gyntaf y Rhaglen Chwarae Plant erbyn 4 Mai 2007 ac mae'r rhai a fynychodd y seminar yn gweithio'n galed i wneud y gorau o'r cyfle hwn. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr gnoi eu hewinedd hyd fis Rhagfyr cyn cael clywed os y buont yn llwyddiannus.

Dysgwch ragor ar [www.biglotteryfund.org.uk](http://www.biglotteryfund.org.uk)

## CAIS BRYS! Cymorth gyda gwaith ymchwil

Ydych chi'n benthyca teganau neu adnoddau chwarae eraill fel rhan o'ch gwaith, unai yn y sector gwirfoddol neu ddarpariaeth awdurdod lleol ar gyfer plant neu deuluoedd?

Byddai NATLL Cymru'n ddiolchgar iawn i dderbyn eich cymorth gyda'u prosiect ymchwil presennol, yn mapio benthyca teganau ac adnoddau yng Nghymru. Felly hoffent glywed gennych.

**Cysylltwch â swyddfa NATLL Cymru yn  
Aberhonddu – [natll.wales@playmatters.co.uk](mailto:natll.wales@playmatters.co.uk)  
neu 01874 622097**

## Gwasanaeth Newyddion ein Gwefan

Mae'r gwasanaeth newyddion ar ein gwefan yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i bob un yng Nghymru sydd â diddordeb mewn chwarae. Caiff y newyddion ei ddiweddarau'n rheolaidd, ac mae'n cynnwys dolennau i wefannau perthnasol. Ers lansio'r wefan newydd fis Tachwedd diwethaf, rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol am yr adran newyddion.

[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



# Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth ein cyfaill Peter Clarke, y cyntaf o Gomisiynwyr Plant y DU, fu farw ar yr 21 Ionawr. Gwyddom y bydd llawer o bobl sydd ynghlwm â gwaith plant a phobl ifanc yng Nghymru a'r tu hwnt yn galaru o golli Cymro mawr.

**D**ywed ei swyddfa "Ni fydd yn syndod i glywed ei fod, hyd y diwedd, yn meddwl am blant a phobl ifanc Cymru". Cafodd ei ddisgrifio gan ei gydweithwyr a gwleidyddion fel "arloeswr" ac "ysbrydoliaeth".

Yma yn Chwarae Cymru, roeddem yn adnabod Peter fel llysgennad ymroddedig a diwyd dros blant a phobl ifanc. Roedd ei arddull dirodres, hamddenol a chyfeillgar yn cuddio penderfyniad dygn a diwro i warchod a chynnal hawliau plant ein gwlad. Roedd ei ymarweddiad a'i onestrwydd yn enghraifft i eraill.

Roedd yn rhywun nad oedd fyth angen ei berswadio ynghylch gwerth chwarae. Mewn byd ble yr oedd ei waith yn aml iawn yn ei dynnu i mewn i feysydd oedd yn heriol a dadleuol, efallai y byddai wedi bod yn ddealladwy iddo osgoi'r agenda chwarae, ond wnaeth o erioed mo hynny. Byddai'n gwrandao ar blant a'r hyn oedd yn bwysig iddyn nhw.

Byddwn yn gweld ei golli.

**Achubwch ar y cyfle i gyfrannu at y Bwrdd Coffa i ddatlu bywyd Peter ar <http://www.dathlupeter.org>**

## Ymgynghoriad Plant ar Chwarae

Cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant ddigwyddiad ymgynghori ar chwarae yn Abertawe fis Tachwedd diwethaf. Dyma adroddiad ein cyfaill Steve (10) o Feisgyn:

**P**an ofynnodd y pennaeth i fi a Paul i gynrychioli'r ysgol yn y digwyddiad oedd wedi ei drefnu gan y Comisiynydd Plant, roeddw'n i'n teimlo'n falch iawn ac yn edrych ymlaen yn fawr am oesoedd.

Wedi inni gyrraedd yno, fe ofynnodd dyn o Gynulliad Cymru lwyth o gwestiynau inni am chwarae yn yr ysgol a chwarae mewn llawer o fannau eraill. Doeddw'n i'n methu credu 'nghlustiau pan ddywedodd un o'r cynrychiolwyr eraill mai dim ond ugain munud o amser chwarae fydden nhw'n ei gael amser cinio! Rwy'n teimlo'n lwcus iawn ein bod ni'n cael awr i ginio. Rwy'n credu ei fod yn ein helpu ni yn y dosbarth gan ein bod ni'n cael awyr iach a rhedeg o amgylch a chael hwyl.

Fe gwrdtais i â Peter Clarke yn y bore pan oedd ni'n adeiladu'r Jenga. Fe ddywedodd ei fod yn mynd i roi araith i ni am ei griw o ac am ei swyddfa, a'r hyn y mae'n nhw'n ceisio ei wneud i helpu plant i gael bywyd ac addysg ac amser chwarae gwell. Fe ysgwydodd law gyda ni ac roedden ni'n meddwl ei

fod yn garedig iawn. Yn hwyrach, fe wnaethon ni siarad gyda fe yn y ciw cinio ac fe ofynnodd beth oedden ni'n meddwl o'i araith. Roeddw'n i'n hoffi ei fod yn deall am blant a phwysigwydd chwarae. Fe ddywedodd weithiau nad yw oedolion yn gwerthfawrogi plant a'u chwarae, a bod angen rhoi stop ar hynny.

Rwy'n credu bod y digwyddiad wedi ein helpu ni fel cynghorwyr ysgol i feddwl mwy am beth sy'n digwydd amser chwarae. Mae'r pennaeth wedi rhyw fath o roi cyfle inni ddewis gweithgareddau ac offer i'w brynu gyda'n cyllideb. Mae'n bwysig ein bod ni'n ddoeth a ddim yn gwastraffu arian. Nawr mae gennym ni sdwff i adeiladu cuddfannau, ac mae'r pennaeth wedi fy rhoi i a fy ffrind Sam yn gyfrifol am yr offer a'r gofod. Mae'n wir wedi dechrau gadael i ni reoli yr hyn sy'n digwydd amser chwarae. Ry'n ni'n cael adeiladu si-sos a phethau gyda hen feinciau pren a hyd yn oed pan fyddwn ni'n cwmpo mae'n ddigon o hwyl, ac fe fyddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel trwy osod matiau ar lawr ac edrych ar ôl ein gilydd. Mae'r pennaeth

wedi ein helpu ni, a nawr y cyfan sy'n rhaid iddo ei wneud yw helpu'r gwragedd amser cinio i ddeall ei bod hi'n iawn inni chwarae heb iddyn nhw geisio ymyrryd a gwneud pethau'n rhy ddiogel. Pan mae'n rhy ddiogel mae'n ddiflas ac mae'n peidio bod yn hwyl.

Pan glywais i fod Peter Clarke wedi marw roeddw'n yn teimlo'n drist iawn oherwydd fe fuodd yn garedig iawn i mi a Paul. Fe ddywedodd mai plant yw dyfodol nid yn unig Cymru, ond y byd. Rwy'n gobeithio y bydd person tebyg iawn i Peter Clarke yn cymryd ei le oherwydd roedd e'n Gomisiynydd da iawn, ac fe wnaeth i mi deimlo'n dda iawn gan ei fod yn dweud pa mor bwysig yw plant drosodd a throsodd.

**Dysgwch fwy am ganlyniadau'r ymgynghoriad ar [www.childcom.org.uk](http://www.childcom.org.uk)**

**Ers i Steve ysgrifennu'r adroddiad hwn ar ein cyfer, rydym wedi clywed bod llywodraethwyr yr ysgol wedi eu gwahardd rhag chwarae gyda'r meinciau.**



# Mannau Chwarae



Diwrnodchwarae 2006 Blaenau Gwent

## Meysydd Chwarae – Cael Pethau'n Iawn

Er gwaetha'r amgyffrediad cyhoeddus bod meysydd chwarae'n cael eu cau o'n hamgylch ym mhobman, rydym wedi bod yn ffodus i weld cynnydd yn ystod y 10 – 15 mlynedd diwethaf, wedi eu talu amdanynt yn bennaf gan lefelau cynyddol o ddatblygiad economaidd a chynnydd mewn ariannu cyhoeddus.

**O**nd nid yw'n newyddion da i gyd, gan fod y dystiolaeth fel pe bai'n awgrymu nad yw plant a phobl ifanc yn defnyddio'r meysydd chwarae hyn ddim mwy yn awr nag yn y gorffennol.

Er enghraifft, nododd gwaith ymchwil a gyflawnwyd ar ran Adran yr Amgylchedd yn nechrau'r 1970au (a gyhoeddwyd fel y bwletin dylunio *Children at Play* yn 1972) fod y rhan fwyaf o feysydd chwarae ar gyfartaledd yn cael eu defnyddio tua 12%. Mewn geiriau eraill, am bob 100 o blant a phobl ifanc fyddai'n cael eu gweld allan yn y gymdogaeth ar unrhyw adeg, dim ond tua 12 ohonynt fyddai y tu mewn i ffiniau maes chwarae cyhoeddus. Roedd graddfa defnyddio rhai meysydd chwarae yn ddim ond 3 – 6%. Mae nifer o brosiectau ymchwil mwy diweddar (fel *Hide and Seek: where children spend their free-time* a baratowyd ar gyfer Prifysgol Leeds yn 2002) wedi canfod fod graddfeydd cyfartaledd defnyddio meysydd chwarae cyhoeddus yn debyg, sef tua 11% i 12%. Pur anaml

oedd y graddfeydd defnyddio yn uwch na 25%.

Ond, dylem ystyried y ffigurau hyn â gofal. Mae cael un o bob pedwar plentyn yn defnyddio maes chwarae ar unrhyw adeg yn ffigur uchel ac mae ystyriaethau eraill y dylid eu rhoi i'r ffigurau is – bydd plant yn tueddu i ymweld â maes chwarae fwy nag unwaith mewn diwrnod (yn enwedig ar y penwythnos) felly gall y ffigurau fod yn gamarweiniol ar brydiau. Ond gall defnyddio'r un math o fesurau ar feysydd chwarae mewn gwledydd eraill gynnig cyfle i gymharu. Er enghraifft, yn y gwledydd Sgandinafaidd mae'r ffigurau defnyddio isaf ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus gan amlaf yn dechrau tua 22%. Mewn geiriau eraill, ein ffigurau cyfartaledd defnyddio uchaf ni yw eu man cychwyn hwy.

Felly, beth yw'r rheolau euraidd ar gyfer adeiladu maes chwarae y bydd plant a phobl ifanc yn ei fwynhau ac o'r herwydd yn ei ddefnyddio? Dyma rai canllawiau cwbl sylfaenol:

### **Caiff meysydd chwarae sydd â gwerth chwarae uchel fwy o ddefnydd**

Mae gwerth chwarae yn ymwneud â mesur yr amrywiol brofiadau y bydd maes chwarae yn eu cynnig, yn hytrach na chyfrif offer chwarae. Caiff maes chwarae sydd â sgôr gwerth chwarae cytbwys ar draws gwahanol fathau o chwarae, fwy o ddefnydd nac un sydd heb gydbwysedd o'r fath.

### **Bydd cynnwys y plant yn cynyddu'r lefel o ddefnydd**

Bydd cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses dylunio'n tueddu i arwain at feysydd chwarae sydd â gwerth chwarae uwch fydd yn arwain at fwy o ddefnydd. Ond nid yw mor syml â hynny – all plant a phobl ifanc ond seilio eu barn ar brofiad blaenorol. Nid mater rhywydd ychwaith yw dehongli'r hyn y bydd plant a phobl ifanc yn ei ddweud yn ystod ymgynghoriad na'u cynnwys yn y gwaith – dengys y dystiolaeth bod gwir angen i ni fel oedolion wybod beth ydym yn ei wneud i gael hyn yn iawn.



## &lt;Td7

**Darparu'r offer cywir**

Mae'r mathau traddodiadol o offer chwarae, sy'n ymddangos braidd yn hen ffasiwn, yn dal yn boblogaidd gyda defnyddwyr. Pan ofynnir i blant a phobl ifanc yr hyn y maent yn ei hoffi, dyma drefn y rhestr ...

- Siglenni – bob amser ar frig y rhestr, a gorau po fwyaf eu maint
- Trogylich a si-sos – pethau sy'n symud
- Lithrennau – unwaith eto gorau po fwyaf y maint, yn enwedig ar domenni a bryniau
- Fframiau dringo – ddim mor uchel ar y rhestr ag y byddai oedolion yn ei feddwl
- Mannau chwarae pêl a lle ar gyfer olwynion (beiciau, sgwteri, sglefrfyrdau ayb)

**Caiff maes chwarae sy'n adlewyrchu oeddrannau****defnyddwyr lleol fwy o ddefnydd**

Yn aml iawn bydd plant hŷn a rhai yn eu harddegau'n colli allan pan ddaw'n fater o ddarparu manau chwarae – maent hwythau angen rhywle i ymgasglu â ffrindiau hefyd. 'Does dim pwrpas darparu maes chwarae ar gyfer plant ifanc a dim i blant hŷn os oes nifer sylweddol ohonynt yn byw yn yr ardal. Mae'n hanfodol ymchwilio i wneuthuriad y boblogaeth leol.

**Caiff maes chwarae sydd â mynediad i dirwedd a nodweddion naturiol fwy o ddefnydd**

Efallai mai offer chwarae fydd yr elfen wnaiff ddenu plant i faes chwarae, ond mynediad i ddeunyddiau hyblyg ac amgylchedd naturiol amrywiol fydd yn eu perswadio i aros. Mae'n amlwg iawn pan fydd plant yn mynd i mewn i faes chwarae gyntaf y byddant yn rhedeg yn syth at ddarn o offer chwarae, y siglenni gan amlaf. Yna byddant yn symud at ddarn arall o offer cyn, yn y pen draw, roi tro ar bopeth sydd yno. Ond unwaith iddynt ddechrau archwilio'r llwyni, y coed, y gwair hir a'r dŵr, byddant yn aros yno ac yn anwybyddu'r offer chwarae parhaol.

Bydd maes chwarae llwyddiannus yn cyfuno offer chwarae â deunyddiau naturiol, a thryw hynny greu man chwarae hynod o hyblyg.

**Lleoliad – caiff maes chwarae yn y man cywir fwy o ddefnydd**

Y ffactor unigol bwysicaf fydd yn pennu os y caiff maes chwarae ei ddefnyddio ai peidio, yw ei lleoliad. Ni chaiff maes chwarae sydd wedi ei gynllunio'n dda ac sydd â sgôr gwerth chwarae da ond sydd yn y lleoliad anghywir gymaint o ddefnydd â maes chwarae o gynllun gwael sydd yn y man cywir. Pan gaiff plant a phobl ifanc eu cynnwys a'u holi fel rhan o broses cynllunio maes chwarae, yr un cwestiwn gaiff bron fyth ei ofyn yw 'ble gredwch chi y dylid ei leoli?' Ond, hwn ddylai fod y cwestiwn pwysicaf ar y rhestr.

**Casgliad**

Y drafferth gyda'n meysydd chwarae yw nad yw plant a phobl ifanc yn eu defnyddio mor aml ac y credwn neu gymaint ag yr hoffem, a byddwn yn tueddu i roi'r bai am hynny arny nhw. Ond nid eu bai nhw yw e'. Bai y rhai hynny ohonom sy'n comisiynu, dylunio, adeiladu a chynnal y meysydd chwarae yw e' a hynny heb ystyried yr hyn y mae plant ei eisiau a'i angen mewn gwirionedd.

Mae Marc Armitage yn ymgynghorydd ac yn ymchwilydd annibynnol ar chwarae plant a byd cymdeithasol ehangach plant a phobl ifanc. Dysgwch fwy ar <http://www.playpeople.se>

# Archwilio Meysydd Chwarae

Yr RPII yw'r Gofrestr Ewropeaidd cyntaf ar gyfer Arolygwyr ym maes darpariaeth a diogelwch chwarae plant.

**C**aiiff y Gofrestr ei ardystio gan y Cyngor Iechyd & Diogelwch, y Sefydliad Safonau Prydeinig a'i chydabod gan y prif gwmnïau yswiriant a'r Llysoedd. Mae'r Gofrestr yn darparu arholiadau a thystysgrifau i'r arolygwyr hynny sydd wedi arddangos y lefel angenrheidiol o wybodaeth a meistrolaeth i gynnal archwiliadau o feysydd chwarae awyr agored ac offer chwarae pwrpiadwy. Bydd yn cynnwys arholi rhai sy'n gymwys i archwilio manau chwarae dan do a chwaraeon ar olwynion yn y dyfodol agos.

Mae'r Gofrestr ar gael yn gyffredinol i rai sydd angen gwasanaeth arolygwyr proffesiynol cymwys.

Er nad yw archwilio ac adrodd yn orfodol, mae nifer o resymau pam y dylai darparwyr chwarae sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r canllawiau. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod meysydd chwarae plant yn ddiogel a lleihau'r perygl o anafiadau difrifol. Byddant yn helpu i gynnal offer chwarae ac ymestyn ei oes er mwyn cael y Gwerth Gorau o fuddsoddiadau costus. Felly, er mai mater o ddewis yw'r archwiliad, mewn gwirionedd dyma lwybr darparwr chwarae at Arfer Gorau ar gyfer chwarae diogel, Gwerth Gorau a thawelwch meddwl.

**Am ragor o wybodaeth ymwelwch â [www.playinspectors.com](http://www.playinspectors.com) neu galwch 024 7641 4999**  
Copi gan yr RPII







# Gawn ni chwarae go iawn os gwelwch yn dda?

John Ridgewell sy'n sôn wrthym am 'Playspace', Caerffili

**M**ae'n ymddangos weithiau bod Molwynion Llywodraeth leol yn troi'n ofnadwy o araf, ond nid yw hynny'n golygu bod dim yn digwydd, ac er amddiffyn y Cynghorau, pan fo rhywun yn delio ag arian cyhoeddus, mae'n siŵr ei bod yn well osgoi penderfyniadau byrbwyll.

Cymerwch chwarae er enghraifft, neu feysydd chwarae plant yn benodol. Y rhain fu asgwm cefn y rhan fwyaf o barciau lleol dros y 90 o flynyddoedd a mwy diwethaf, ac, ar wahân i newid llw bob nawr ac yn y man, maent yn dal i gynnig yr un cyfleoedd chwarae ac yr oeddent pan gawsant eu cyflwyno am y tro cyntaf; wedi'r cyfan, siglen yw siglen, boed yn goch rhydlyd neu'n wyrdd llachar a phorffar. Ond, mae newid ar droed, a pheidiwch a'm camddeall, mae meysydd chwarae parhaol yn dal yn fannau chwarae hynod o werthfawr. Eleni, am y tro cyntaf mewn gwirionedd, mae ariannu ar gael i symud chwarae plant ymlaen i'r lefel nesaf, a thrwy hyn rwy'n golygu datblygiad cyfleoedd chwarae sy'n cynnig lle i blant ddewis sut y maent am chwarae.

Y gwahaniaeth gydag ariannu newydd Chwarae Plant MAWR (a'r hyn sy'n fy nghyffroi i) yw ei fod wedi ei anelu at ddarparu dewis amgen i safleoedd chwarae parhaol confensiynol. Mae mudiadau'n cael eu gwahoddi i ystyried datblygu Meysydd Chwarae Antur, sydd wedi eu staffio gan Weithwyr Chwarae Hyfforddedig, Meysydd Chwarae wedi eu hadeiladu gan y Gymuned, gaiff eu hadeiladu a'u cynnal gan blant, pobl ifanc ac oedolion lleol, a Darpariaeth Chwarae



Symudol i ddarparu ar gyfer plant mewn cymunedau mwy anghysbell, ynghyd â Chanolfannau Chwarae, Prosiectau Chwarae Rhiniog y Drws a Storffeydd Sgrap.

Yng Nghaerffili rydym eisoes wedi mabwysiadu'r cysyniad hwn gyda safle chwarae antur mynediad agored eithriadol o lwyddiannus gafodd ei agor y llynedd yn Nhrefdegar Newydd. Nawr mae'r rhaglen Chwarae Plant yn cynnig cyfle i ddatblygu'r cysyniad hwn ymhellach ac rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid ar y cais cyntaf.



Fel y soniais ar y dechrau, chwarae sefydlog fu asgwm cefn y rhan fwyaf o barciau ers blynyddoedd, ac mae'r angen am y math hwn o gyfleuster gymaint nawr ag erioed. Ond yn aml iawn bydd plant angen rhagor, a nawr rydym yn gweithio ar daro'r cydbwysedd cywir hwn. Efallai eich bod yn credu mai dim ond siglo ar y siglen yw bywyd, ond gwylwch y gofod hwn i ddysgu llawer mwy.

**(John Ridgewell yw Rheolwr Datblygu Parciau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)**

## Amgylchedd Chwarae Cyfoethog

**M**ae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un ble y gall plant a phobl ifanc wneud ystod eang o ddewisiadau; ble y ceir llawer o bosibiliadau fel y gallant ddyfeisio ac ymestyn eu chwarae eu hunain.

Gallai hwn fod yn unrhyw ofod neu leoliad, unai'r tu allan neu o dan do, a gall gynnwys: ardaloedd chwarae lleol, parciau, canolfannau chwarae, meysydd chwarae antur wedi eu staffio, gofal y tu allan i'r ysgol, darpariaeth chwarae symudol, cyfleoedd chwarae a meithrinfeydd, ac ysgolion.

Mae'n amgylchedd corfforol amrywiol, ysbryoledig a diddorol sy'n mwyafu'r posibiliadau ar gyfer cymdeithasu, creadigrwydd, dyfeisgarwch a her. Mae'n

le ble y bydd plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ac ar eu telerau eu hunain.

Bydd darpariaeth chwarae o safon yn cynnig cyfle i **bob plentyn a pherson ifanc** i ryngweithio'n gwbl rhydd â neu i brofi'r canlynol:

**plant a phobl ifanc eraill** – gyda dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, cydweithredu, dadlau, a datrys anghydfod;

**y byd naturiol** – y tywydd, y tymhorau, llwyni, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd, ayb;

**rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalo;

**yr elfennau naturiol** – daear, awyr, tân a dŵr;

**her a mentro** – ar lefel corfforol yn ogystal â lefel emosiynol;

**chwarae gyda hunaniaeth** – chwarae rôl a gwisgo i fyny;

**symud** – rhedeg, neidio, dringo, balansio, rhoio;

**sgarmesoedd** – chwarae ymladd;

**y synhwyr** – sŵn, blas, teimlad, arogl a golwg;

**teimladau** – poen, llawenydd, hyder, ofn, dichter, bodlonrwydd, diflasterod, diddordeb, hapusrwydd, gofid, gwrthodiad, derbyniad, tristwch, balchder ayb.



# Mam yn trechu'r Datblygwyr

Mae ymgyrch mam i rwystro datblygwyr a gwarchod parcdir yn Crystal Palace, ble y mae ei phlentyn yn chwarae, wedi arwain at ddyfarniad o bwys ar asesu effaith amgylcheddol yn Nhŷ'r Cyffredin.

**B**u Diane Barker yn brwydro'n erbyn ei chyngor lleol am saith mlynedd i rwystro adeiladu canolfan sinema ar y parc ble y mae ei merch yn chwarae ... ac fe enillodd. Er i hyn ddigwydd yn Llundain, mae'n effeithio ar ymgyrchoedd yn erbyn datblygu tir yng Nghymru.

Mae'r penderfyniad yn dilyn dyfarniad yn Llys Cyfiawnder Ewrop yn gynharach eleni oedd yn datgan y gellir gofyn am asesuadau

effaith amgylcheddol (EIA) wedi i ganiatâd cynllunio gael ei roi – yn ystod yr hyn a elwir yn gam materion neilltuedig y broses. Dywedodd cyfreithiwr Diane Barker: "Nawr, gall trigolion sy'n wynebu prosiectau mawrion fynnu y caiff effeithiau amgylcheddol sylweddol eu hystyried ar bob cam o'r broses cynllunio. Rydym yn ystyried bod canlyniad y dyfarniad hwn yn golygu ... y caiff yr amgylchedd well gwarchodaeth, ac na fydd datblygwyr anghyfrifol ac awdurdodau cynllunio lleol bellach yn gallu osgoi eu cyfrifoldebau EIA."

Dywedodd Huw Thomas, o'r Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol ym Mhrifysgol Caerdydd, wrthym: "Mae achos Barker yn dangos i drigolion pryderus, nad yw tynnu sylw at ddirodd amgylcheddol datblygiadau arfaethedig (allai gynnwys difrod i fannau y bydd plant yn eu defnyddio i chwarae) yn fater 'un cynnig yn unig'. Gellir edrych eto ar Asesiad Effaith Amgylcheddol a gyflawnwyd ar un adeg – pan fo egwyddor y datblygiad yn cael ei drafod – pan gaiff cais cynllunio mwy manwl ei gyflwyno. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw hi i gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd gyda chynlluniau'r datblygiad – peidiwch â cholli eich ffocws pan aiff pethau'n dawel, oherwydd bydd y broses o dderbyn caniatâd cynllunio a mynd ati i ddatblygu'n aml iawn yn un ysbeidiol."

Ffynonellau: The Observer 7.1.07, PlanningResource.co.uk

# Croeso i faes chwarae yn Sir y Fflint

Richard Roberts yw Swyddog Cynllunio Chwarae Cyngor Sir y Fflint. Aethom i gwrdd ag e' ar ddiwrnod glawog o Chwefror mewn ardal chwarae plant newydd ar gyrion Yr Wyddgrug. Ar y glwyd roedd arwydd â'r geiriau "Croeso i dy faes chwarae" arno.

"Rwyf wedi dod â chi yma oherwydd y lle – nid cymaint y maes chwarae, ond yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni â'r gofod. Rwy'n falch iawn o'r hyn yr ydym wedi llwyddo i'w wneud."

Rydym yn sefyll mewn llecyn agored glas yng nghanol ystad dai fodern. Mae peth ohono'n laswellfog, ceir coedlannau ac ystod o lwyni sydd newydd eu plannu. Gerllaw ceir ardal chwarae wedi ei ffensiio sy'n cynnwys darnau traddodiadol o offer y gall plant o bob oed eu defnyddio. Mae Richard yn cydnabod bod yr offer chwarae a welir yma'n cynrychioli gwerth chwarae gwael. Mae'n pwysleisio nad yw i fod i ddarparu ar gyfer pob angen chwarae, ond yn hytrach i arwyddo bod pob modfedd o'r ardal agored yma'n ofod i blant. "Mae'n dweud 'fe allwch chi chwarae yma, mae'r tir yma ar gyfer plant. Nid dim ond toiled anffurfiol ar gyfer perchnogion cŵn lleol yw hwn'." A gwelir tystiolaeth bod pâr o goed eisoes wedi cael eu mabwysiadu'n byst gôl, mae



potensial i greu ffeua a chuddfannau yn y llwyni, ceir llwybrau ar gyfer chwarae ar olwynion, ac mae modd dychmygu y daw hwn yn fan arbennig iawn i blant lleol.

Eglura Richard i'r ystad dai gael ei datblygu ar gaeau fferm a bod pwysau mawr i wasgu rhagor o dai ar y tir. Er bod gan Sir y Fflint Nodiadau Canllaw Cynllunio Lleol grymus ar Ofynion Mannau Agored, bydd datblygwyr yn defnyddio eu holl gastiau i geisio sicrhau llai o fannau agored a mwy o dai. Mae'n cymryd cryfder ac ymrwymiad i wrthsefyll eu nerth ariannol, eu cyflwyniadau cain a'u casys alwminiwm sgleiniog, ond yn yr achos hwn llwyddodd Richard a'i gydweithwyr i ddiogelu cyfran eang o'r ardal oedd i'w datblygu ar gyfer gofod agored at ddefnydd anffurfiol y gymuned. Mae'n falch iawn, a hynny'n gwbl haeddiannol.

## Er Lles Pawb

Mae Nodyn Canllaw Sir y Fflint yn ddiddorol. Cafodd ei ddatblygu ar y cyd rhwng yr Adran Gynllunio a'r Gwasanaethau Hamdden, ac mae'n dechrau fel a ganlyn: "Mae cyfleoedd ar gyfer **adloniant ffurfiol ac anffurfiol** yn hanfodol i iechyd a hapusrwydd pobl o bob oed." Fel y dywedodd pennaeth Richard, Mike Hornby, wrthym mewn rhifyn

blaenorol o Chwarae dros Gymru, yn Sir y Fflint caiff darpariaeth chwarae ei ystyried yn fater o ansawdd bywyd.

Mae'r Nodyn yn ei gwneud yn gwbl eglur y gwerth uchel y mae'r Cyngor yn ei roi ar ddi ar gyfer adloniant o bob math: "Er mwyn cwrd ag anghenion y gymuned, bydd darparu mannau agored cyhoeddus yn ystyriaeth bwysig i gynlluniau ar gyfer datblygiadau preswyl newydd. Yn ogystal â bod o fudd i les cyffredinol y gymuned, trwy ddarparu ar gyfer chwaraeon ac adloniant, gall mannau agored cyhoeddus gyfrannu hefyd at fio-amrywiaeth, cadwraeth natur a'r tirwedd, ansawdd awyr, gwarchod dŵr daear, a gall hefyd harddu golwg ardal."

Er hynny, pan ymgyngorwyd â thrigolion lleol ynghylch darparu ardal chwarae, roedd nifer fechan yn wrthwynebus gan greu y byddai'n niwsans fyddai'n effeithio ar bris eu heiddo. Ond, nid oes unrhyw dystiolaeth o niwsans – mae hon yn ardal anferth ac fel y dywed Richard, mae'n fater o hawl i blant lleol mewn gwiriionedd. Yn ffodus roedd y cynghorydd lleol yn pryderu mwy am les cyffredinol pawb a chafodd gwrthwynebiadau eu gwrthod er budd ehangach y gymuned gyfan.

[http://www.flintshire.gov.uk/webcont/newrealw eb.nsf/wa\\_files/LPGN13.pdf/\\$file/LPGN13.pdf](http://www.flintshire.gov.uk/webcont/newrealw eb.nsf/wa_files/LPGN13.pdf/$file/LPGN13.pdf)



# Meysydd chwarae natur Freiburg

Tim Gill, cyn-Gyfarwyddwr y Cyngor Chwarae Plant a'r awdur a'r ymgynghorydd annibynnol, sy'n adrodd am feysydd chwarae newidiol Freiburg

**M**ae rhai sy'n eiriol dros chwarae wedi tynnu sylw ers blynyddoedd at y ffaith bod yn well gan blant, o gael y dewis, chwarae yn yr awyr agored mewn amgylcheddau naturiol. Mae manau o'r fath mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r cyfleusterau di-haint, artiffisial sydd mor aml yn cynrychioli'r unig gydnyddiaeth gyhoeddus o angen plant am leoedd i chwarae. Dengys dinas Freiburg yn yr Almaen bod modd creu darpariaeth chwarae cyhoeddus diarolygiaeth sy'n dal cyfoeth, annibendod a bywiogrwydd natur, ond sydd er hynny'n cwrdd â chyfyngiadau ymarferol cyllideb, rheolaeth a diogelwch. Ers dechrau'r 1990au mae Adran Parciau Freiburg wedi bod yn creu manau chwarae naturiolaid yn hytrach nag ardaloedd chwarae confensiynol – a thrwy hynny mae wedi bod yn sicrhau gwell manau chwarae a mwy o faint am ei arian.

Cyflwynwyd y rhaglen yn dilyn gwaith ymchwil gan yr Athro Baldo Blinkert, cymdeithasegydd o brifysgol y ddinas, a ddangosodd y buddiannau iechyd a chymdeithasol y bydd 'gofod gweithredol' awyr agored deniadol yn eu cynnig i blant a theuluoedd. Clywais yr Athro Blinkert yn siarad yn 2004 pan oeddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr i ddatblygu ei agwedd tuag at chwarae. Roedd y prosiect hwn, sef y 'Growing Adventure', wedi bod yn edrych ar sut y gallai'r Comisiwn annog plant i ymwneud mwy ag amgylcheddau coediog, gyda manau chwarae'n gweithredu fel man cychwyn. Sylweddolwyd pa mor berthnasol oedd agwedd Freiburg, a threfnwyd taith astudio i weld eu 'meysydd chwarae natur' â'n llygaid ein hunain.

Anghofiaf i fyth y maes chwarae cyntaf inni ei weld: edrychai'n fwy fel lle gwyllt wedi ei fomio nag ardal chwarae plant. Tra bo'r rhai newydd yr ymwelwyd â hwy ychydig yn llai aflêr, roedd y cyfan yn rhannu yr un patrwm cynllun: tomenni, ffosydd, boncyffion, creigiau, coed wedi cwympo, llwyni a blodau gwyllt i gyd yn uno i greu tirwedd cyfoethog, chwareus, naturiol. Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys pwmp dŵr llaw i ganiatáu i'r plant greu tywod gwlyb a mwd. Dim ond ambell un oedd â ffens neu glwyd. Yn hytrach, defnyddiwyd rhwystrau naturiol, waliau isel a phlannu gofalus i ddiffinio'r gofod



ac i nodi'r ffiniau. Gan amlaf prin iawn oedd y darnau o offer chwarae, weithiau roeddent wedi eu gadael yno ers cyn yr ailwampio. Gwelwyd digonedd o blant yn mwynhau'r manau hyn – a digon o dystiolaeth hefyd eu bod yn cael eu defnyddio, ar ffurf cuddfannau, llwybrau wedi treulio a theganau wedi eu gadael.

Caiiff y meysydd chwarae eu harchwilio'n rheolaidd ac maent yn cwrdd â'r un safonau diogelwch yr Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys ar gyfer y DU. Prin iawn y defnyddir arwynebau diogelwch, gan fod yn well ganddynt ddefnyddio gro mân, tywod neu risgl: welwyd yr un diferyn o sment.

Wrth i fannau chwarae cyhoeddus henffasiwn farw allan neu wrth i ofodau newydd ddod i'r amlwg mewn datblygiadau newydd, bydd yr adran parciau'n gweithio gyda phlant ac oedolion lleol i ddylunio ac adeiladu'r gofodau arddull newydd. Bellach mae dros 40 ar draws y ddinas, allan o gyfanswm o 150. Ac yn fwy na hynny – sylwer drysoryddion y Cyngor – byddant gan amlaf yn costio dim ond hanner cost ardal chwarae offer parhaus gonfensiynol o'r un maint.

Wrth gwrs, mae gan Yr Almaen a'r DU wahanol ddiwylliant, a gellir dadlau wahanol agweddau tuag at blant mewn manau cyhoeddus. Yn sicr, fe welom fwy o blant allan yn chwarae, yn cerdded ac yn seiclo ar eu pen eu hunain na mewn llawer o ddinasoedd

ym Mhrydain. Er hynny, cytunodd y rhai aeth ar y daith astudio fod y meysydd chwarae yn haeddu'n sylw. Yn wir, mae un o'r rhai a gymerodd ran, Sue Gutteridge, wedi llwyddo i ddatblygu prosiectau gafodd eu dylanwadu'n fawr gan agwedd Freiburg.

Efallai bod Sue, rheolwraig chwarae Cyngor Stirling, wedi mynd ymhellach nag unrhyw swyddog awdurdod lleol arall wrth wrthod y dull 'siopa o gatalog' o greu gofodau chwarae. Mae wedi comisiynu tua deg gofod chwarae naturiol ar draws yr awdurdod, gyda chynlluniau ar gyfer mwy. Mae ei neges hi i bobl eraill sydd am ddweud "na" wrth ieir ar sbrings a phlastig lliwgar, yn gwbl eglur. "Talwch y sylw cywir i – a byddwch yn barod i dalu am – ddylunio da," meddai, "a chofiwch sicrhau mai gwir ddefnydd a defnydd posibl plant o'r gofod yw'r priif rym hysbysu ar gyfer y cynllun."

Yn Lloegr a'r Alban, mae pobl broffesiynol brwdfrydig ym maes chwarae wedi cael eu hysbrydoli gan y ddinas yn Ne'r Almaen, Freiburg. A oes unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru'n ddigon mentrus i ddilyn eu hesiampl a rhoi tro ar feysydd chwarae natur? Rwyf wedi clywed bod rhai yn cymryd y camau cyntaf.

**Dysgwch fwy am Tim a'i waith ar [www.rethinkingchildhood.com](http://www.rethinkingchildhood.com)**

**Dysgwch fwy am waith y Comisiwn Coedwigaeth ar [www.forestry.gov.uk/england-play](http://www.forestry.gov.uk/england-play)**



Ym mis Mehefin 2006 cymerodd Michael Follett ran mewn taith astudio ryngwladol o fannau chwarae ym Merlín. Gofynnem iddo ddweud wrthym am y daith i:

# Berlin



**M**ae edrych ar faes chwarae heb blant fel edrych ar lwyfan heb actorion, 'does gennych ddim syniad pa mor dda fydd y perfformiad. Fe all y set fod yn lliwgar a helaeth, neu'n blaen a minimol, chaiff yr ansawdd ond ei ddatgelu pan fydd y perfformiad yn dechrau.

Wrth sefyll mewn maes chwarae gwag mewn ysgol gynradd ym Merlín ar fore clir ym mis Mehefin, meddyliais pam y bu i mi ddefnyddio fy lwfans carbon am y flwyddyn i ddod yma. I ddweud y gwir nid oedd yn edrych yn arbennig o gwbl; ychydig o foncyffion, ambell i dwmpyn, rhywfaint o lwyni ... nes i'r gloch ganu. Lliffodd plant o'r adeilad gan chwalo i bob cornel o dir yr ysgol. Anelodd un grŵp o fechgyn yn syth am frincyn caregog. Yno roeddent yn pwrpio dŵr i mewn i wely afon wedi ei gerflunio. Roeddent yn cario tywod yn eu crysau i greu argae, yna yn ei chwalo gan adael i'r dŵr lifo i lawr i mewn i bwl tywod anferth. Diffannodd grŵp o blant iau ymysg y llwyni a'r coed. O graffu ar eu hôl, gwelais haid o blant yn rhannu sgyrsiau sibrydol, yn eistedd ar gasgliad o foncyffion mewn cuddafan dan y cangau. Mewn ardal arall, roedd llawer o'r merched hyn yn eistedd ar wal hir siâp-S yn sgwrsio ac yn gwylio, neu'n anwybyddu, dau fachgen wrth iddyn nhw

ddringo maen hir cerffedig anferth.

Ym mhob cwr o dir yr ysgol roedd plant yn clwydo ar greigiau, waliau, meinciau a boncyffion, roeddent yn dringo ar dŵy ffrâm ddringo anferth, o amgylch cerflun carreg, dros y boncyffion, tra roedd eraill yn chwarae gemau o dennis bwrdd, pêl-droed, gwyddbwyll a chwarae dal. Roedd y trawsnewidiad yma'n hudol. Roedd mwy ar waith yn y maes chwarae hwn na dim ond plant yn ymateb i dirwedd. Roedd y rhain yn blant oedd yn gwybod eu bod i fod yn chwarae. Roedd eu dillad, agwedd yr oedolion o'u hamgylch, y rhyddid a'r cyfleoedd a fynegwyd yn y cynllun, i gyd yn cyfuno i adael iddynt chwarae.

Wedi i'r plant fynd yn ôl i mewn cawsom ein cyflwyno i'r pennaeth a'r gofalwr. Fel cynhyrchydd a chyfarwyddwr drama, roeddent yn rhannu'r cemeg hanfodol o weledigaeth a sgiliau ymarferol sydd eu hangen i drawsnewid man gwag yn faes chwarae creadigol, llewyrchus. Roedd chwarae yn cael ei ystyried yn werthfawr iawn yn yr ysgol hon – roedd y plant a'r oedolion yn gwybod hynny. Nid oedd problemau'n cael eu dileu – roeddent yn cael eu goresgyn. Roedd risgiau a heriau'n cael eu croesawu'n hytrach na'u dileu. Roeddwn yn awyddus iawn i ofyn fy



nghwestiwn holl-bwysig, am y rhwystr unigol mwyaf i chwarae plant ym Mhrydain. Edrychodd y gofalwr yn syn,

'Cathod?'

'Ie, fyddan nhw'n mynd yn y tywod?'

'Weithiau, am wn i. Ond 'dyw hi ddim yn broblem.'

'Ond mae'n bwl tywod mor fawr, fyddwch chi ddim yn cael llwyth o gathod yn dod i'w ddefnyddio?'

'Dydw i ddim yn siŵr beth yr ydych yn ei feddwl. Fe fydd ambell i gath yn dod yma, ond allan nhw ddim dweud wrth ei gilydd am y pwll tywod, felly fydd dim dwsinau ohonynt yn dod yma. 'Dyw cathod yr Almaen ddim yn defnyddio ffonau symudol na hyd yn oed yn siarad wyddoch chi. Os y bydd ambell i gath yn gwneud ei busnes yn y tywod, mae'r plant yn gwybod



i ddod i ddweud wrthf fi neu aelod arall o'r staff ac fe fyddwn yn cael gwared ohono. Mae'n enghraifft o'r ffaith bod y budd yn llawer mwy na'r risg. Beth fyddwch chi'n y DU yn ei wneud ynghylch busnes y gath?' 'Fe fyddwn ni'n gwaredu'r tywod.'

Yn Ysgol Ewropeaidd Quentin Blake gwelais dirwedd chwarae cyffrous arall ac enghraifft drawiadol o'r agwedd wahanol tuag at risg. Y nodwedd fwyaf poblogaidd oedd llwybr mawr oedd yn nadreddu o amgylch holl dir yr ysgol. Roedd troeon a throadau a thwmpau a chrymachau wedi eu hadeiladu i mewn iddo. Roedd yr ysgol wedi prynu ugain sgwter a thri beic un olwyn. Roedd grwpiau o blant yn rhuthro o amgylch y llwybr ar y sgwteri. Stopiodd un o'r rhai ar y sgwteri, bachgen tua saith oed, wrth fy yml:

'Hoffech chi weld yr ymennydd?'  
 'Ym, ie, OK.'

Fe'm arweiniwyd at bwll bach gludiog coch ar y llwybr.

'Fanna', meddai gan bwntio'n falch. 'Ymennydd Anna yw hwnna, fe syrthiodd oddi ar y beic un olwyn ddoe.'

Diolchais i'r bachgen, yn y modd cywir y dylech ei ddefnyddio wedi i rywun ddangos y fath dystiolaeth drawiadol i chi a chroesais y gwair at y Pennaeth.

'Ym' meddais, gan geisio edrych ar y Pennaeth a hynny heb feddwl am Anna a'i hymennydd.

'Ym, fyddwch chi'n cael llawer o ddamweiniâu?'

Dywedodd, tan ddoe, nad oedd unrhyw ddamwain ddifrifol wedi bod, ond bod merch wedi syrthio oddi ar y beic un olwyn a chracio ei phenglog, roedd bellach yn gwella'n dda yn yr ysbty. Gofynnais i'r Pennaeth pe byddai'n gwneud i fwrdd a'r beiciau un olwyn, ac edrychodd arnaf mewn syndod.

'Na fyddwn wrth gwrs' atebodd. 'Roeddem yn gwybod bod rhywfaint o risg pan wnaethom eu prynu, mae'r ddamwain wedi cadarnhau hynny, ac roedd y plant yn ymwybodol o'r risgiau, nid yw'n golygu bod yn rhaid inni wneud i fwrdd â nhw.'

Meddyliais am yr ymateb cwbl wahanol y gallai damwain o'r fath ei achosi ym Mhrydain, ble mae'r pwysau bob amser i waredu'r elfen neu'r weithgaredd achosodol y risg. Mae'n amlwg bod y pwynt ble y byddwch yn penderfynu bod y risg yn annerbyniol yn fater o ddiwylliant. Ond, yn rhesymegol, os y daliwch ati i waredu pob elfen o risg gyda phob damwain, y cyfan fydd gennych ar ôl fydd anialwch gwastad o laswellt (chwarae haf yn unig), diffaethwch llwyd o darmac (dim rhedeg) ac, i'r rhai mwyaf anturus, 'lwybr antur lefel isel' gyda chwymp o ddim mwy na 60cm i arwyneb diogel, sef yr hyn sydd gennym ni'n gyffredinol.



Roedd yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy i gyd wedi derbyn cefnogaeth gan fudiad o'r enw Gruen Macht Schule (Gwnewch Ysgolion yn Wyrdd). Dechreuodd y mudiad dros ugain mlynedd yn ôl gyda phwyslais amgylcheddol. Cefais yr argraff eu bod wedi cael eu tynnu fwyfwy i mewn i greu tirweddau chwaraeus, gan mai dyna oedd plant ei angen fwyaf ac y byddent yn ymateb orau iddo. Roedd yn amlwg o'u gwaith bod y cydweithio rhwng amgylcheddwyr, tirlunwyr, artistiaid, gweithwyr chwarae, athrawon a phlant wedi arwain at ddealltwriaeth llawer dyfnach o sut y gall tirwedd fod yn brydferth, yn unigryw ac yn hynod o ymarferol wrth ddarparu ar gyfer anghenion plant.

Yn ystod fy arhosiad cefais fy synnu i ddysgu bod y Rhyfel Oer wedi chwarae rhan annisgwyl wrth helpu dinas Berlin i gwrrd ag anghenion chwarae ei phlant. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd teithio y tu allan i ffiniau'r dref bron iawn yn amhosibl. Un ateb oedd i ddod â chymaint â phosibl o wyrddni i mewn i'r dalinas. Roedd trigolion Berlin am roi pob cyfle i'w plant chwarae mewn mannau oedd yn ail-greu profiadau o gefn gwlad. Bellach mae'r olion amlwg olaf o'r Rhyfel Oer i'w gweld mewn amgueddfeydd yn unig. Ond efallai bod y meithrinfeydd, yr ysgolion cynradd a'r parciau cyhoeddus yr

ymwelais â hwy, yn dangos peth o'r etifeddiaeth yma i blant Berlin. Caiff tywod a dŵr eu hystyried yn gynhwysion sylfaenol chwarae ac maent i'w cael ym mhob math o ardal chwarae, bron yn ddiwahân. Ble y caiff offer chwarae ei ddefnyddio, yn aml iawn mae'n ddeniadol ac yn ychwanegu at y math o brofiadau chwarae cyffrous allai fod yn anodd i'w ail-greu fel arall mewn amgylchedd artiffisial. Mae'r rhain yn cynnwys llithrennau hir, fframiau dringo uchel neu siglenni. Mae'r defnydd eang o dywod a gro mân fel arwyneb diogel yn caniatáu llif sy'n llawer mwy naturiol rhwng nodweddion chwarae naturiol a rhai synthetig. Mae pylu'r ffin rhwng tirlunio a chelf, dodrefn stryd a nodweddion chwarae, llwybr cerdded neu lwybr chwarae yn cyfleu'r neges y gallwch chwarae ym mhobman.

Y gwir etifeddiaeth yw bod chwarae plant yn cyfrif o ddifrif. Os y caiff mur ei adeiladu o amgylch plentyndod, ac os na all plant gyrraedd y manau y maent eu hangen i chwarae, yna mae'n rhaid inni ymdrechu i ail-greu y cyfleoedd a'r heriau hynny yn y manau ble y bydd plentyndod yn digwydd.

Efallai nad oes gennym yma yn y DU fur o goncridd llwyd â thyrâu gynnu peiriant sy'n gwahanu plant oddi wrth fannau pwysig plentyndod, ond mae'r rhwystrau eraill – traffig, diffyg mynediad a chynllunio gwael – yr un mor effeithiol. Credaf ein bod ni'n awr yn yr un sefyllfa ac yr oedd pobl Berlin yn 1961 pan godwyd y wal – rydym yn sylweddoli bod gan ein plant anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu. Hyderaf na fyddwn, fel cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr dyfodol ein plant, unai'n anwybyddu eu anghenion neu yn canolbwyntio ar adeiladu y setiau mwyaf helaeth neu drawiadol, ond yn hytrach ein bod yn canolbwyntio ar greu yr amgylchiadau sy'n creu chwarae o'r ansawdd gorau.

Gruen Macht Schule (Gwnewch Ysgolion yn Wyrdd) [www.gruen-macht-schule.de/](http://www.gruen-macht-schule.de/)  
 Frode Svane Barnas Landskap  
<http://home.c2i.net/swan/>

**Treuliodd Michael Follett lawer o'i blientdod yn hyfforddi ar gyfer gyrfa ym myd chwarae. Fel oedolyn dechreuodd weithio fel gyrrwr bws chwarae yng Ngogledd Swydd Efrog. Yn 2001 sefydlodd y cynllun Rhodwyr Chwarae cyntaf yng Nghaerfaddon er mwyn ceisio goresgyn y rhwystrau sy'n atal plant rhag cael mynediad i gyfleoedd chwarae da mewn mannau agored cyhoeddus. Mae'r enw a'r model gwaith yn prysur dyfu'n fwy poblogaidd. Ers 2005 bu'n gweithio fel Ymgynghorydd Datblygu Chwarae gyda Chyngor De Swydd Gaerloyw.**



# Enwi Ein Prosiect Hyfforddiant Gwaith Chwarae!

Gall unrhyw riant ddweud wrthy ch pa mor anodd yw cytuno ar enw ar gyfer babi newydd.

**Y**n fy achos i, fe aethon ni trwy bopeth o Aled i Llewelyn, Montmorency i Zorro, gan orffen gyda chyfadawd yn y diwedd – a dim ond dau ohonon ni oedd. Bydd y rhan fwyaf ohonon yn chwilio am ryw beth ymarferol ond barddonol, yn llawn cymeriad ond heb fod yn rhy anghyffredin – rhywbeth y gall plant yn fyw gydag e am flynyddoedd lawer. Dychmygwch pa mor hir gymerodd hi i dîm Chwarae Cymru gytuno ar enw i'r hyfforddiant gwaith chwarae newydd ... ac yna ei ddyblu.

Fe aethon ni trwy bob math o syniadau a theitlau creadigol gan gytuno yn y diwedd ar ... Gwaith Chwarae: Egyddorion ar Waith (*Playwork: Principles into Practice*). Nid dyma'r teitl mwyaf cyffrous, ond fel y dywedir yn yr hysbysebion "Mae'n gwneud yr hyn mae'n ei ddweud ar y tun," a gan ei fod yn dipyn o lond ceg, caiff ei adnabod o ddydd i ddydd fel P<sup>3</sup>. Mae'n siwr mewn amser y caiff y teitl ei anwybyddu ac y daw yn syml yn symbol o'r hyfforddiant gwych y mae'n ei gynnig.

**Os hoffech ddyfysu rhagor am P<sup>3</sup>, cysylltwch â Richard Trew yn ein swyddfa genedlaethol (029 2048 6050 neu richard@playwales.org.uk)**

**CWLWM**

Children Wales Learning and Making Ministry



## Chwarae Mas yn y Maes yng Nghymru

**M**ae profiad Cymru wrth redeg hyfforddiant Mwd a Gwreichion – (yn cefnogi gweithwyr chwarae i hwyluso plant i chwarae gyda daear, dŵr, tân ac awyr) wedi cyfrannu at brosiect newydd:

Yn ddiweddar lansiodd y Partneriaethau Gwaith Chwarae gynllun Chwarae Mas yn y Maes. Bu'n bosibl creu'r prosiect hwn trwy ariannu CWLWM a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae ganddo ddau brif linydd a ysbrydolwyd gan adborth a dderbyniwyd gan weithwyr chwarae ac ymarferwyr amgylcheddol ynghylch yr hyn fyddai'n rhoi rhagor o hyslder iddynt weithio gyda phlant yn yr awyr agored. Bydd yn cynnwys datblygu a rhedeg peilot o ddau gws newydd: un wedi ei anelu at rodwyr chwarae o'r enw Chwarae Mas yn eu Cynefin, a'r ail un yn archwilio gwaith chwarae amgylcheddol yn fanwl, sef Chwarae Mas gyda'r Elfennau.

Cefnogodd Chwarae Cymru Swyddogion Chwarae Cymru, Rhwydwaith Cefnogi Datblygiad Chwarae i drosglwyddo amryw o ddiwrnodau dysgu trwy brofiad i weithwyr chwarae. Ers hynny, trefnwyd digwyddiadau Mwd a Gwreichion mewn nifer o ardaloedd i hyrwyddo pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant chwarae â'r elfennau. O gofio nad oedd digwyddiad o'r fath yma'n rhan o hyfforddiant gwaith chwarae ar y pryd, ac y byddai'n llanw bwich mawr o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus, roedd Grŵp Cynllunio Mwd a Gwreichion yn awyddus i'r cysyniad gael ei ddatblygu'n becyn wedi ei ardstio.

Ym mis Ebrill bydd y Partneriaethau Gwaith Chwarae a Chwarae Cymru'n cynnal peilot o Chwarae Mas gyda'r Elfennau gyda nifer fechan o diwtoriaid yng Nghymru. Bydd hwn yn gyfle i drafod, gwerthuso a mireinio'r cws cyn iddo fod ar gael i weithwyr chwarae, erbyn diwedd y flwyddyn gobeithio. Mae'r Partneriaethau Gwaith Chwarae'n anelu i gael y becyn Hyfforddi'r Hyfforddwr wedi ei ardstio yn Hydref 2007. Yn dilyn ei ardstio, bydd cws Chwarae Mas gyda'r Elfennau Hyfforddi'r Hyfforddwr yn datblygiad preswyl i gefnogi trosglwyddo'r cws 18 awr.

Fel rhan o'r gwaith ymchwil ar gyfer y cws Chwarae Mas yn eu Cynefin, mae Dan Rees-Jones ar hyn o bryd yn teithio o amgylch prosiectau o fath rhodwyr chwarae yng Nghymru. Rydym wedi gofyn iddo gadw dyddiadur ac edrychwn ymlaen i'w gyhoeddi yn ein rhifyn nesaf.

**Am ragor o wybodaeth ymwelwch â [www.playwork.co.uk](http://www.playwork.co.uk)**



# Cyfweliad gyda hyfforddwr Gwaith Chwarae

Fe ofynnem rywfaint o gwestiynau i Phil Burton, hyfforddwr P<sup>3</sup>, am y cwrs newydd:

**Rydych yn weithwr chwarae ac yn hyfforddwr profiadol, sut mae'r cwrs Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith, neu P<sup>3</sup> yn wahanol i'r hyfforddiant y bu i chi ei drosglwyddo o'r blaen?**

Mae tŷn ac effaith y cwrs P<sup>3</sup> yn wahanol i gyrsiau blaenorol.

Yn draddodiadol, mae'r cyrsiau hyfforddiant chwarae haf sylfaenol wedi dechrau gyda'r rhagdybiaeth hyd yn oed os oedd yr hyfforddwyr yn gwbl ymroddedig i waith chwarae a'i egwyddorion datblygu, roedd y gweithwyr ar y cyfan 'ond yn pasio heibio' ac eisiau cwrs fyddai ar y cyfan yn gist offer ar gyfer cywiro dros dro a goroesi, yn hytrach na'n ddechrau ar yrfa heriol ym maes gwaith chwarae. Yn hyn o beth, roedd llawer o'r cwrs traddodiadol yn rhwydd i'w drosglwyddo i'r gweithwr chwarae fel trefnydd gweithgarwch, y gweithwr chwarae fel darparwr gweithgareddau gwrthdymiadol a chyfleoedd hamdden 'hwyliog', yn hytrach na'r gweithwr chwarae fel eiriolwr dros hawliau plant sydd wedi ei hysbysu gan gyfres o egwyddorion.

Er i'r cyrsiau gwaith chwarae y bu i mi eu trosglwyddo dros y blynyddoedd gael eu seilio fwyfwy ar theori chwarae (yn enwedig ers cyhoeddi'r Hawl Cyntaf) mae'r cysyniadau allweddol na edrychwyd arnynt yn fanwl yn cynnwys egwyddorion gwaith chwarae, y cwricwlwm chwarae, theori rhannau rhydd a chanolbwyntio ar ymarfer myfyriol. Caiff y rhain i gyd eu harchwilio'n fwy manwl yn P<sup>3</sup> ac, er mai ymateb rhai cyfranogwyr oedd "Pam fod angen yr holl theori yma?" y realiti i'r tiwtoriaid yw cwrs sydd â gwell cydlynad a chysondeb.



Mae P<sup>3</sup> yn cynnwys ystod o wahanol ddulliau trosglwyddo sy'n ei gadw'n fywiog, yn llawn rhyfeddod ac yn ddeniadol i'r mwyafrif o gyfranogwyr. Gan i lawer o'r dulliau hyn gael eu datblygu gan yr un bobl â weithiodd ar hyfforddiant chwarae blaenorol, nid yw'n syndod y ceir pwyslais ar osgoi gormod o ddarlithio a chymryd nodiadau.

Yn fy marn i, yn P<sup>3</sup> mae'r cydbwysedd rhwng apelio i wahanol arddulliau dysgu, dulliau trosglwyddo a phrofiadau ymarferol yn rhesymol iawn. Agwedd ryddhaol arall P<sup>3</sup> yw i'r cwrs gael ei ddatblygu gyda dewis hyblyg o weithgareddau y gall y tiwtor bori ynddynt a'u defnyddio i fywiogi neu i ganolbwyntio ffocws y grŵp. Ceir anogaeth i drosglwyddo'r cwrs mewn modd 'ymarferol' yn yr awyr agored.

Mae'r cwrs hwn yn arwain at fwy o bolareiddio teimladau rhwng

cyfranogwyr h.y. rhwng y rheini sy'n ei weld fel trobwynt yn eu dealltwriaeth neu eu gwerthfawrogiad o chwarae a Gwaith Chwarae a'r rheini sydd mewn gwirionedd ddim eisiau bod yn rhan o'r broses. Mae'r cwrs yn gweithredu fel proses sy'n herio agweddau. Credaf mai dyma yw ei brif gryfder.

**Sut mae adnodd gweledol, fel y ffilm ddaw gyda'r cwrs, yn ychwanegu gwerth i'r hyfforddiant?**

Fe chwaraeddodd y cyfranogwyr ac mae'n amlwg eu bod ynghlwm yn emosiynol, ac roedd y drafodaeth ganlynol yn amrywiol a chyfoethog. Mae'n gymorth addysgu sydd â llawer iawn o botensial.

**Sut gredwch chi y bydd y cwrs hwn, a'r ffilm, yn annog dynion i ymuno â'r proffesiwn gwaith chwarae?**

Ar hyn o bryd rwy'n credu ei bod hi'n anodd barnu os y bydd y cwrs hwn yn darbwyllo rhagor o ddynion i ddod yn weithwyr chwarae, ond mae'n awgrymu bod Gwaith Chwarae'n gysyniad y dylid ei werthfawrogi, a bod swydd y Gweithwr Chwarae'n galw am onestrwydd, deallusrwydd, sensitifrwydd ac egni.

**Fel hyfforddwr P<sup>3</sup>, beth yw'r heriau ar gyfer y dyfodol?**

Yr her i'r dyfodol yw i gymryd system gwerthoedd y gweithwr chwarae a'i gwneud yn rhywbeth y mae athrawon, gweithwyr ieuencid a phobl broffesiynol ym maes gofal plant yn ei deall.

**Mae Phil yn rhan o Dynamix, cwmni hyfforddiant wedi ei leoli yn Ne Cymru (01792 466 231 neu ewch i [www.seriousfun.demon.co.uk](http://www.seriousfun.demon.co.uk))**

**GW'LWM**

Children's Wales Learning & Working Monthly





# Digwyddiadau Ariannu

**9 – 10 Mai 2007**

## Ysbryd Chwarae Antur

Holiday Inn, Caerdydd  
 Am ragor o wybodaeth ewch i:  
[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)  
 ffoniwch 029 2048 6050 neu ebostiwch  
[events@playwales.org.uk](mailto:events@playwales.org.uk)

**17 – 20 Mai 2007**

## Cynhadledd Genedlaethol CYWU

Gwesty'r Edinburgh Best Western Capital  
 Rhagor o fanylion ar [www.cywu.org.uk](http://www.cywu.org.uk)

**18 Mai 2007**

## Cynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Bws Chwarae

Cysyllter â Juliet ar 0117 916 6580,  
[julietw@playbus.org.uk](mailto:julietw@playbus.org.uk) neu ewch i [www.playbus.org.uk](http://www.playbus.org.uk)

**14 Mehefin 2007**

## Cynhadledd Ryngwladol Diogelwch Chwarae

Am ragor o wybodaeth ewch i [www.rospe.com/play](http://www.rospe.com/play)

**8 – 11 Ionawr 2008**

## Chwarae mewn Byd Newidiol – 17eg Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol Chwarae

8 – 11 Ionawr 2008  
 Hong Kong  
[www.ipaworld.org](http://www.ipaworld.org)

Ymddiheurwn i Gymdeithas Chwarae Gogledd Cymru am adael eu digwyddiad allan o'n rhestr digwyddiadau diwethaf. Am restr mwy cyflawn o ddiwyddiadau sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'r adran Digwyddiadau ar [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

### • Cronfa Gymunedol pentrefi'r DU

Mae'r gronfa hon yn darparu grantiau o rhwng £50 - £500 i ystod o brosiectau cymunedol fel cylch chwarae sydd angen teganu ac offer chwaraeon ar gyfer clybiau. Am ragor o fanylion ewch i [www.ukvillages.co.uk/articles.nsf/content/ukvkitty](http://www.ukvillages.co.uk/articles.nsf/content/ukvkitty)

### • Cronfa Pobl Ifanc: Gwnewch Iddo Ddigwydd (Cymru):

Dyddiad cau: Dyddiad heb ei bennu  
 Ystod grantiau: o £500 i £5,000  
 Disgrifiad: Bydd Gwnewch Iddo Ddigwydd yn rhannu £1 miliwn yng Nghymru dros y 3 blynedd nesaf i brosiectau, gweithgareddau ac offer fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc o 10 – 19 mlwydd oed.

## Nodyn Atgoffa Digwyddiadau a Swyddi

Byddwn yn hysbysebu digwyddiadau a swyddi ar ein gwefan sy'n berthnasol i ddarparwyr chwarae a gweithwyr chwarae yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod hwn yn wasanaeth cynhwysfawr sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf arno, hoffem ofyn i chi anfon eich hysbysebion swyddi a digwyddiadau atom. Os hoffech hysbysebu digwyddiad neu swydd, yn rhad ac am ddim, gadewch inni wybod trwy ebostio [angharad@playwales.org.uk](mailto:angharad@playwales.org.uk). Er mwyn hysbysebu swydd cofiwch gynnwys y manylion canlynol: teitl swydd, disgrifiad/gofynion swydd, manylion cyswllt, cyflog a'r dyddiad cau.

## Poster

### Poster Chwarae Mas yng Nghymru

Mae poster newydd Chwarae Cymru gan Les Evans ar gael nawr. Anfonir un copi o'r poster, yn rhad ac am ddim, i bob aelod o Chwarae Cymru. Mae'r poster ar gael i'w brynu, am gost o £5 (yn cynnwys postio a phacio), trwy ein gwefan: [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

